OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2091 (Cy. 206)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu a Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2013

*Gwnaed - - - - 15 Awst 2013*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 23 Awst 2013*
*Yn dod i rym - - 1 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt(**1**) gan adrannau 2(6)(b) a (7), 4(6), 140(1), (7) ac (8) a 142(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**) a chan adrannau 14F(1)(b), (2), (7) ac (8) a 104(1) o Ddeddf Plant 1989(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu a Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "credyd cynhwysol" ("*universal credit*") yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**5**);".

(3) Yn rheoliad 12 (swm y cymorth ariannol)—

(**1**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru ac maent wedi eu breinio bellach ynddynt hwy.
(**2**) 2002 p.38.
(**3**) 1989 p.41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 14F a 104 o Ddeddf Plant 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**4**) O.S. 2005/1512 (Cy.116).
(**5**) 2012 p.5.

(a) ym mharagraff (6)(b) ar ôl "credyd treth plant" mewnosoder—

", elfen y plentyn o gredyd cynhwysol";

(b) ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) Yn y rheoliad hwn ystyr "elfen y plentyn o gredyd cynhwysol" yw swm sydd wedi ei gynnwys mewn dyfarniad credyd cynhwysol o dan adran 10 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran honno."

(4) Yn rheoliad 17(7)(c) (adolygu cymorth ariannol) ar ôl "gymwys i gael" mewnosoder—

"credyd cynhwysol,".

**Diwygio Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3), yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "credyd cynhwysol" ("*universal credit*") yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012;".

(3) Yn rheoliad 12(10)(b)(ii) (adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig) ar ôl "yn cael" mewnosoder—

"credyd cynhwysol,".

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Awst 2013

(**6**) O.S. 2005/1513 (Cy.117).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 ("y Rheoliadau Cymorth Mabwysiadu") a Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 ("y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig").

Mae'r Rheoliadau Cymorth Mabwysiadu yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu fel rhan o'r gwasanaeth y maent yn ei gynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Mae'r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gwarcheidiaeth arbennig gan gynnwys gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig sy'n cynnwys gwasanaethau ar ffurf cymorth ariannol.

Gwneir y diwygiadau o ganlyniad i Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 er mwyn cynnwys cyfeiriad, o fewn y Rheoliadau Cymorth Mabwysiadu a'r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig, at gredyd cynhwysol yn ogystal â'r cyfeiriad presennol at fudd-daliadau a fydd, yn y pen draw, yn cael eu disodli gan gredyd cynhwysol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Cymorth Mabwysiadu mewn perthynas â swm y cymorth ariannol sydd i'w ddarparu a pha bryd y dylai cymorth o'r fath beidio â pharhau.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â pha bryd y dylai cymorth ariannol beidio â pharhau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Strategaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ